

## COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

### PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWDYD DDYDD MERCHER 24 CHWEFROR 2021 DRWY MS TEAMS (10:30 – 13:00)

**Aelodau CFfDLC yn bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru:** Julie Rees

**Cynrychiolydd TIAA:** Steen Gourlay

**Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru:** Sean Gaffney

**Swyddogion CFfDLC:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni) David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Pennaeth Busnes)

Croesawodd y Cadeirydd Julie Rees, a oedd wedi cymryd yr awenau oddi wrth Mark Jones fel Rheolwr Archwilio Archwilio Cymru ar gyfer CFfDLC.

#### 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

#### 2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

#### 3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2020

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2020 yn amodol ar y canlynol:

- Ychwanegu testun at baragraff 6.5 yn diolch i Sean Gaffney am drefnu'r hyfforddiant Diogelwch TGCh i aelodau, ac yn nodi bod y penderfyniad i enwebu Hyrwyddwr TGCh yn deillio o'r ymwybyddiaeth a gafwyd gan aelodau o ganlyniad i'r hyfforddiant.
- Esbonio ym mharagraff 14.1 mai Cymdeithas y Ceidwadwyr yw'r gymdeithas y cyfeiriwyd ati.

#### 4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor fod dau fater yn weddill o hyd ar ôl y cyfarfod blaenorol.

4.2 Cwblhawyd y newidiadau gofynnol i orchymyn banc CFfDLC, a nodwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn mynd ati i newid y gweithdrefnau awdurdodi taliadau ar-lein fel bod angen awdurdodiad deuol ar gyfer pob taliad banc ar-lein.

- 4.3 Crybwyllodd David Burley y byddai angen iddo lunio ystyriaeth o'r holl risgiau TGCh y mae CFfDLC yn eu hwynebu, a threfnu gweithdy i lunio adroddiad ar gyfer yr archwiliad manwl o risgiau diogelwch TGCh.

## 5. Cynllun Gwaith 2019-20 y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2020-21

- 5.1 Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith 2020-21. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau pellach.

## 6. Adroddiad ar Ddiogelwch TGCh a Data

- 6.1 Crybwyllwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.
- 6.2 Amlinellodd Sean Gaffney brif bwyntiau'r Adroddiad Diogelwch TGCh newydd. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at y bygythiadau diweddaraf a amlygwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a oedd yn fwyaf perthnasol i CFfDLC.
- 6.3 Nodwyd bod sgôr datguddiad seiberddiogelwch bresennol CFfDLC yn ganolig. Roedd hyn oherwydd nad oedd yr holl ddiweddariadau diogelwch MS wedi'u cyflwyno ar gyfer yr holl Surface Pros. Esboniodd Sean Gaffney fod y diweddariadau diogelwch yn cael eu cyflwyno ar y Surface Pros bob yn dipyn er mwyn osgoi tarfu ar waith yr holl staff ar yr un pryd. Hefyd, roedd dau Surface Pro newydd yn cael eu paratoi ar gyfer yr aelodau staff newydd a fyddai'n ymuno ym mis Mawrth ac nid oedd y rhain yn cynnwys y diweddariadau diogelwch hyd yn hyn, a oedd wedi cynyddu'r sgôr datguddiad diogelwch. Nodwyd bod yr holl ddiweddariadau diogelwch MS wedi'u gosod ar yr holl Surface Pros erbyn hyn, gan olygu bod y sgôr datguddiad diogelwch yn isel unwaith eto.
- 6.4 Nodwyd bod sgôr datguddiad diogelwch CFfDLC yn ystyried Surface Pros staff yn unig ac nid y rhai sydd wedi'u neilltuo ar gyfer aelodau. Er bod hyn yn peri mân risg diogelwch wrth i aelodau fynd at safle Sharepoint CFfDLC, ystyriwyd y byddai'r risg hon yn parhau'n isel iawn pe byddai aelodau'n sicrhau bod eu Surface Pros yn cynnwys y diweddariadau diogelwch MS cyfredol.
- 6.5 Nododd y Pwyllgor fod archwiliad Cyber Essentials CFfDLC wedi'i drefnu i'w gynnal ym mis Mai.
- 6.6 Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r aelodau a'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Wybodaeth a Diogelwch erbyn hyn. Roedd un aelod ac un aelod staff heb gwblhau'r hyfforddiant hyd yn hyn. **Cytunwyd** y byddai'r unigolion nad oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant yn cael eu hatgoffa i'w gwblhau.  
**Gweithredu:** Prif Weithredwr **Erbyn:** 31 Mawrth 2021.

## 7. Archwilio Allanol: Cynllun Archwilio 2021

- 7.1 Esboniodd Julie Rees fod y Cynllun Archwilio ar gyfer 2021 yn amlinellu'r gwaith arfaethedig ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2021-21. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at Arddangosyn 1, a oedd yn amlygu'r prif risgiau archwilio ariannol a all

arwain at gamddatganiadau sylweddol yn y cyfrifol ac a fyddai'n mynnu ystyriaeth arbennig yn ystod yr archwiliad. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Y risg o reolwyr yn diystyru rheolaethau. Bydd yr ymateb archwilio yn profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol, yn adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ac yn gwirio trafodion sylweddol.
- Argyfwng cenedlaethol COVID-19. Bydd yr ymateb archwilio yn adolygu'r proses cau i lawr CFfDLC, ei drefniadau monitro ansawdd a phroses paratoi'r cyfrifon.
- Y risg yn ymwneud â'r gwendid o ran rheolaethau a dogfennau adnoddau dynol CFfDLC a nodwyd yn ystod archwiliad y llynedd.
- Y risg yn ymwneud â diwygio cofnodion dyddlyfrau ar Sage a nodwyd yn ystod archwiliad y llynedd.
- Paratoi i fabwysiadu IFRS16 ar gyfer cyfrifon 2022-23.

7.2 Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys manylion am y tîm a'r amserlen archwilio, ac yn pennu'r ffi archwilio ar gyfer y flwyddyn. Disgwyliwyd i'r archwiliad gael ei gwblhau ddiwedd mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf. Nodwyd bod y ffi archwilio yr un fath â'r llynedd, ond ei bod hefyd yn cynnwys swm ychwanegol ar gyfer y costau ychwanegol yr aethpwyd iddynt yn ystod archwiliad y llynedd. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y byddai'r swm wrth gefn ar gyfer costau ychwanegol ond yn cael ei godi pe byddai'r un problemau'n codi ag y llynedd. Cadarnhaodd Julie Rees na fyddai'r tâl wrth gefn yn cael ei gymhwyso oni bai bod hynny'n angenrheidiol.

7.3 Roedd Atodiad 1 yn amlinellu newidiadau i IFRS yn y dyfodol sy'n berthnasol i lywodraeth ganolog. Nodwyd bod IFRS 16 Prydlesi wedi'i ohirio gan Drysorlys EM tan fis Ebrill 2022. Cynhwyswyd IFRS 17 Contractau Yswiriant er cyflawnrwydd, ond ni fyddai'n cael unrhyw effaith sylweddol ar gyfrifon CFfDLC.

7.4 Nododd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio ar gyfer 2021.

## **8. Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio Diwedd Blwyddyn ac Adroddiad Archwilio Blynnyddol 2020-21**

8.1 Crybwyllodd Steen Gourlay fod y gwaith archwilio a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2021 wedi cwmpasu'r Ymateb i'r Pandemig ac Arolygon Seneddol, ynghyd â gweithgarwch dilynol ar argymhellion blynnyddoedd blaenorol. Roedd yr archwiliad wedi arwain at Sgorau Sicrwydd Archwilio Sylweddol ar gyfer Ymateb i'r Pandemig ac Arolygon Seneddol.

8.2 Nododd y Pwyllgor yr argymhellion a godwyd, sef:

- Y dylid cadarnhau a chymeradwyo'r Cyfarwyddiadau Desg ar gyfer Arolygon Seneddol, yn unol â'r cynllun.
- Y dylid rhoi trefniadau ar waith i gwblhau Rhestrau Gwirio Sicrhau Ansawdd Drafft a Rhestrau Gwirio Sicrhau Ansawdd Terfynol, a'u cymeradwyo'n ddigidol er mwyn sicrhau y gellir mynd at y rhain o bell.
- Y dylid casglu a chyflwyno Arolygon Ôl-arolwg i'r Comisiwn, ynghyd â manylion am unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth a gafwyd.
- Y dylid dileu'r cyfeiriad at y Pecyn Gwacáu o'r Cynllun Parhad Busnes.

- Y dylai'r Cynllun Parhad Busnes gofnodi pa swyddi yn y Comisiwn fydd yn cyflawni rôl yr Uwch Swyddog a'r Swyddog Dogfennu Dynodedig, a phwy fydd yn dirprwyo ar gyfer y ddwy rôl.

Derbyniwyd yr holl argymhellion.

- 8.3 Canlyniad y gweithgarwch dilynol ar argymhellion archwiliad y llynedd oedd bod y rhan fwyaf ohonynt wedi'u rhoi ar waith erbyn hyn. Roedd yr argymhellion archwilio a oedd yn weddill o hyd yn ymwneud ag arolygon etholiadol ac adnoddau dynol, a byddant yn cael eu cau a'u disodli gan yr argymhellion a wnaed fel rhan o archwiliad y flwyddyn hon.
- 8.4 Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21 yn cynnwys crynodeb o'r gwaith archwilio a'i ganfyddiadau, ac yn rhoi sgôr sicrwydd cyffredinol 'Rhesymol' i CFfDLC ar sail y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r sicrwydd y mae'n ei roi, ac roedd o'r farn bod y sgôr sicrwydd 'Rhesymol' yn siomedig o ystyried y sicrwydd Sylweddol a gafwyd ar gyfer y meysydd a gynhwyswyd yn yr archwiliad diwedd blwyddyn. Esboniodd Steen Gourlay oherwydd y cafwyd nifer gyfartal o sgorau sicrwydd Sylweddol a Rhesymol yn ystod y flwyddyn, roedd o'r farn y dylai'r sgôr sicrwydd cyffredinol adlewyrchu'r isaf o'r rhain.

## 9. Holiadur Blynyddol yr Asesiad Archwilio Mewnol 2020-21

- 9.1 Nodwyd cynnwys yr holiadur a chytunwyd arno. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn dosbarthu'r holiaduron i aelodau a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy'r e-bost, yn dadansoddi'r atebion ac yn adrodd ar y canlyniadau yn y cyfarfod nesaf.  
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 26 Gorffennaf 2021

## 10. Adolygiad o'r Ymatebion i Holiadur Hunansicrwydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2020-21

- 10.1 Nododd y Pwyllgor yr ymatebion i'w holiadur hunanasesu blynyddol, a oedd yn nodi y dangoswyd yr holl arfer da. **Penderfynwyd** y byddai'r Pwyllgor yn parhau â'r ymarfer hunanasesu bob blwyddyn ac yn ymdrechu i gynnal y safon uchel bresennol o gydymffurfio ag arfer da.

## 11. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

- 11.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar yr argymhellion archwilio sy'n weddill.
- 11.2 Mae'r argymhelliad archwilio allanol, sef y dylai'r Comisiwn gryfhau ei broses taliadau banc ar-lein drwy fod â lefel ychwanegol o awdurdodiad ar gyfer taliadau, yn mynd rhagddo. Ychwanegwyd y llofnodion ychwanegol at orchymyn banc CFfDLC ac roedd bellach yn bosibl mynd ati i ychwanegu'r gofyniad am ddau lofnod i awdurdodi taliadau ar-lein.  
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30 Ebrill 2021

- 11.3 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio allanol, sef y dylai'r holl gyflogeion fod â chontractau wedi'u llofnodi ac y dylid cadw cofnod adnoddau dynol canolog ar gyfer yr holl staff, wedi'i roi ar waith.
- 11.4 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio allanol, sef na ddylid diwygio dyddlyfrau cyfrifon Sage ac y dylai'r holl newidiadau gael eu gwneud drwy gofnodion newydd, wedi'i roi ar waith. Nodwyd ymhellach bod yr argymhelliad hwn yn berthnasol i gofnodion dyddlyfrau'n unig, ac y byddai unrhyw newidiadau i gofnodion unigol ar gyfer anfonebau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad misol i'r Swyddog Cyfrifyddu.
- 11.5 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio allanol, sef y dylai'r holl daliadau cerdyn credyd gael eu hategu gan nodiadau trosglwyddo, wedi'i roi ar waith.
- 11.6 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio allanol, sef y dylai'r Comisiwn gadw cofnod o gymeradwyo ei gyllideb flynyddol bob tro, ynghyd ag unrhyw newidiadau dilynol yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan Gomisiynwyr, wedi'i dderbyn ac y byddai'n cael ei roi ar waith yn y dyfodol drwy adrodd arno i'r Comisiwn fel papur ar wahân i'r adroddiad diwedd blwyddyn ar y gyllideb.
- 11.7 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio mewnol, sef y dylid cysoni a gwirio adroddiadau'r gyflogres bob mis, wedi'i roi ar waith erbyn hyn.
- 11.8 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio mewnol, sef y dylid diweddarau polisiau a gweithdrefnau cyllid i gynnwys manylion am ddyddiadau arolygon cyfredol ac yn y dyfodol er mwyn gallu eu holrhain yn well, wedi'i roi ar waith.
- 11.9 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio mewnol, sef y dylid gwirio arian mân yn fisol yn unol â'r broses, wedi'i roi ar waith erbyn hyn.
- 11.10 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio mewnol, sef y dylai ffurflenni hawlio treuliau gael eu gwirio a'u llofnodi'n ddigidol, wedi'i roi ar waith.
- 11.11 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio mewnol, sef y dylai ffeiliau personél gynnwys rhestr wirio o'r wybodaeth ofynnol, wedi'i roi ar waith.
- 11.12 Crybwyllwyd bod yr argymhelliad archwilio mewnol, sef y dylid diweddarau'r Canllaw Rheoli Perfformiad yn unol ag arferion cyfredol, wedi'i dderbyn i'w roi ar waith ar 31 Mawrth 2021.
- 11.13 Crybwyllwyd nad oedd yr argymhelliad archwilio mewnol, sef y dylid adolygu a diweddarau'r ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Hyfforddiant a Datblygiad i roi disgrifiad mwy cynhwysfawr o drefniadau hyfforddiant a datblygiad y Comisiwn, wedi'i roi ar waith gan nad oedd gan Lywodraeth Cymru bolisi Hyfforddiant a Datblygiad. Yn hytrach, cynigiwyd y byddai'r Uwch Dîm Rheoli yn datblygu cynllun gweithredu hyfforddiant wedi'i seilio ar ganlyniadau'r Arolwg Staff ac anghenion y busnes i'w roi ar waith ar 31 Mawrth 2021.
- 11.14 Crybwyllwyd nad oedd yr argymhelliad archwilio mewnol, sef y dylid cofnodi'r holl hyfforddiant gorfodol yn awtomatig ar daenlen cofnodi hyfforddiant er mwyn gallu gweld a yw hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau, fel lechyd a Diogelwch a Chyfarpar Sgrin Arddangos, wedi'i roi ar waith. Yn hytrach, cynigiwyd y dylid cofnodi'r holl

hyfforddiant gorfodol ar Clear Review fel amcan â dyddiad cau, yn hytrach nag ar daenlen.

11.15 Crybwyllwyd nad oedd yr argymhelliad archwilio mewnol, sef y dylid ychwanegu colofn at y Cofnod Hyfforddiant i ddangos y dyddiad y daw'r hyfforddiant i ben, wedi'i roi ar waith gan fod yr holl hyfforddiant yn cael ei gofnodi yn Clear Review erbyn hyn.

## 12. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2020-21

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad drafft Cadeirydd y Pwyllgor Atal ac Archwilio Risg, ac roedd yn **cytuno** ag ef yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- Y dylid diwygio'r pumed linell ym mharagraff 1.1 i ddarllen '*independent advice and assurance*'.
- Y dylid diwygio paragraff 3.1 i ddweud '*appointed*' yn hytrach na '*reappointed*'.
- Y dylid diwygio'r pedwerydd pwynt bwled ym mharagraff 13.12 i adlewyrchu'r ffaith nad oedd Cadeirydd CFfDLC yn gallu cymryd rhan yn yr hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch TGCh.
- Y dylid diwygio paragraff 8.1 i adlewyrchu bod sgôr sicrwydd risg cyffredinol 'Rhesymol' CFfDLC yn symud tuag at sgôr 'Sylweddol' yn sgil canlyniad canfyddiadau'r archwilio mewnol diwedd blwyddyn.
- Y dylid ychwanegu adran newydd yn Atodiad 2 ar Ryddid Gwybodaeth â'r Swyddog Cyfrifyddu fel y lefel gyntaf, adroddiadau i CFfDLC fel yr ail lefel ac adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg fel y drydedd lefel sicrwydd.
- Atodiad 2 Diogelwch Gwybodaeth a Data – ychwanegu penodiad Hyrwyddwr TGCh at yr ail lefel sicrwydd, ac adroddiadau Cymwysterau Cymru i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal risg i'r drydedd lefel sicrwydd.
- Atodiad 2 Parhad Busnes – ychwanegu'r Arolwg Lles Staff a Threfniadau'r Pandemig at y lefel gyntaf.

12.2 **Cytunwyd** ar yr adroddiad yn amodol ar y newidiadau arfaethedig.

## 13. Datganiad Llywodraethu Drafft 2020-21

13.1 Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu drafft. Nodwyd a diwygiwyd sawl mân wall teipio. Hefyd, cytunwyd ar y newidiadau canlynol:

- Dylai adran 3.1 gynnwys datganiad bod CFfDLC yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar fersiwn ddiwygiedig o'r Ddogfen Fframwaith.
- Dylai adran 3.4 gynnwys cyfeiriad at y ffaith bod gan Is-adran Noddi Llywodraeth Cymru yr opsiwn o fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.
- Dylai adran 3.8 gynnwys cyfeiriad at yr arolwg lles staff a'r ymateb
- Adran 4 – dylai'r pedwerydd paragraff gynnwys cyfeiriad at yr archwiliad mewnol ar yr Ymateb i'r Pandemig yn arwain at sgôr sicrwydd Sylweddol.
- Adran 7.2 – dylai'r rhestr o wybodaeth y bwrdd gynnwys y Cynllun Gwaith a fabwysiadwyd yn ddiweddar ar gyfer cyfarfodydd CFfDLC.
- Dylai adran 12 gynnwys cyfeiriad at yr hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch TGCh diweddar i aelodau, a phenodi Hyrwyddwr TGCh.

- 13.2 **Cytunwyd** y byddai'r Datganiad Llywodraethu diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'w fabwysiadu'n ffurfiol yng nghyfarfod CFfDLC ym mis Mawrth.  
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Mawrth 2021

#### **14. Cofrestr Risg Pensiynau CFfDLC**

- 14.1 Nododd y Pwyllgor fersiwn gyfredol cofrestr risg pensiynau CFfDLC, ynghyd â chofnod o'r newidiadau a wnaed ers yr adolygiad diwethaf. Ystyriwyd y gellid adolygu a gostwng y sgôr risg gweddilliol ar gyfer risg PEN4 yn ymwneud ag ymunwyr ac ymadawyr. Fodd bynnag, o ystyried bod sawl aelod staff newydd naill ai wedi ymuno â'r cynllun pensiwn yn ddiweddar neu ar fin ymuno ag ef, penderfynwyd aros nes iddynt gael eu cofrestru'n ffurfiol cyn adolygu'r sgôr risg.

#### **15. Cofrestr Risg TGCh CFfDLC**

- 15.1 Nododd y Pwyllgor fersiwn gyfredol cofrestr risg TGCh CFfDLC, ynghyd â chofnod o'r newidiadau a wnaed ers yr adolygiad diwethaf.

#### **16. Adroddiad Rheoli Risg**

- 16.1 Nododd y Pwyllgor y cofrestrau a'r polisi risg cyfredol. Rhoddwyd manylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

#### **17. Adroddiad Monitro'r Gyllideb**

- 17.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion adroddiad y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 26 Ionawr 2021.

#### **18. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau**

- 18.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion a lletygarwch ar gyfer 2020-21 hyd yn hyn.

#### **19. Cwynion**

- 19.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd CFfDLC wedi cael unrhyw gwynion ers yr adroddiad diwethaf.

#### **20. Adroddiad Chwythu'r Chwiban a Thwyll**

- 20.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

## **21. Adroddiad Rhyddid Gwybodaeth**

- 21.1 Nododd y Pwyllgor y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd rhwng mis Ebrill 2020 a 10 Chwefror 2021.
- 21.2 Cytunwyd y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys colofn ychwanegol yn dangos a yw CFfDLC wedi bodloni'r dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ceisiadau neu beidio.  
**Gweithredu:** Prif Weithredwr **Erbyn:** 26 Gorffennaf 2021.

## **22. Unrhyw fater arall**

- 22.1 Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd cyfredol CFfDLC o ran y rhaglen arolygon etholiadol. Nodwyd bod yr Argymhellion Terfynol ar gyfer Bro Morgannwg wedi'u cyhoeddi erbyn hyn, a disgwylir y byddai'r Argymhellion Terfynol ar gyfer Sir Fynwy yn cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2021, cyn pen y dyddiad cau a bennwyd ar gyfer cwblhau'r rhaglen arolygon.

## **23. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**

- 23.1 Cynigiwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer y cyfarfodydd nesaf:

Dydd Llun 26 Gorffennaf 2021

Dydd Llun 29 Tachwedd 2021.

- 23.2 **Cytunwyd** y byddai gwahoddiadau MS Teams yn cael eu hanfon at aelodau ar ôl y cyfarfod.